



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Cod Llosgi Grug a Glaswellt yng Nghymru 2008

I gael copïau ychwanegol o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Y Gangen Biotechnoleg ac Iechyd Planhigion  
Yr Is-adran Gwasanaethau Technegol  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5942 / 0300 062 2285  
E-bost: [planthealthandbiotech@wales.gsi.gov.uk](mailto:planthealthandbiotech@wales.gsi.gov.uk)

Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:  
[www.cymru.gov.uk/cefngwlad](http://www.cymru.gov.uk/cefngwlad) ewch i 'ffermio' neu chwiliwch am Llosgi Grug  
a Glaswellt ar y wefan.

## Cyflwyniad

Ers miloedd o flynyddoedd bu tân yn rhan o ecoleg naturiol yr ucheldir a rhai amgylcheddau iseldirol, yn arbennig gweundir. Mae'n digwydd yn naturiol wedi i fellten daro ac mae hefyd yn un o'r dulliau mwyaf hynafol o reoli tir. Fe'i defnyddir at ddibenion amaethyddol, i reoli helfeydd, ac yn fwy diweddar i reoli cadwraeth natur.

Defnyddir dulliau llosgi rheoledig ar ystod o gynefinoedd lled-naturiol, gan gynnwys rhostir a gweundir yn arbennig, ond hefyd ar rai migneint a gwlyptiroedd eraill (fel gwelyau cyrs), glaswelltir a phrysgdir. Gall llosgi cyfnodol wedi'i reoli a'i gynllunio'n ofalus fod o fudd i amaethyddiaeth, wrth reoli anifeiliaid hela ac i gadwraeth natur a'r amgylchedd ehangach. Gall wella mynediad anifeiliaid sy'n pori at fwyd a chynyddu gwerth y bwyd hwnnw, a chreu amrywiaeth yn strwythur a chyfansoddiad planhigion sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt, gan gynnwys adar yr ucheldir megis cochiaid.

Serch hynny mae'n ddull pwerus ac mae'n rhaid wrth grefft a dealltwriaeth i sicrhau na fydd yn creu mwy o ddrwg nag o les. Gall llosgi byrbwyll fod yn wrthgynhyrchiol: gall ddifrodi neu niweidio tir pori, planhigion, anifeiliaid, cynefinoedd a nodweddion hanesyddol gwerthfawr; addasu strwythur ffisegol, cyfansoddiad cemegol a hydroleg y pridd; effeithio ar ansawdd y dŵr ac amharu ar gymeriad y dirwedd. Mewn rhai amgylchiadau gall llosgi hefyd fod yn beryglus, yn ddinistriol neu'n wastraff amser ac adnoddau.

Bydd cydymffurfio â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008 ("y Rheoliadau Llosgi") a deddfau eraill, a dilyn argymhellion y Cod hwn yn fodd i leihau'n aruthrol y risgiau i rai sy'n gwneud gwaith llosgi a'r cyhoedd, ac yn lleihau'r risg o ddifrodi neu niweidio eiddo a buddiannau amaethyddol, coedwigaeth a helwra, a bywyd gwyllt a'r amgylchedd ehangach.

Mae'r Cod wedi'i rannu'n ddwy ran: Yn Rhan 1 ceir crynodeb o'r gofynion cyfreithiol yn sgil y Rheoliadau Llosgi diwygiedig a deddfau eraill; yn Rhan 2 ceir argymhellion ar arfer da (gan gynnwys crynodeb byr o'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i bob argymhelliad). **Nid** yw'r Cod yn darparu'r holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen i wneud gwaith llosgi'n ddiogel ac effeithiol. Ceir cyfarwyddyd manwl pellach yn y 'Canllaw Arfer Gorau'. Argymhellir yn gryf bod y rhai hynny â rhywfaint o brofiad hyd yn oed yn

cael hyfforddiant i ddeall sut mae tân yn ymddwyn, gofynion diogelwch modern a thechnegau rheoli tân newydd. Ceir rhestr o ffynonellau gwybodaeth bellach a hyfforddiant yn Atodiad 3.

Fersiwn ddiwygiedig o'r **Cod Llosgi Grug a Glaswellt** blaenorol (MAFF, 1992, yn unol â mân ddiwygiadau a gafwyd ym 1994) yw'r Cod. Mae hyn yn dilyn adolygiad a arweiniodd at adolygu'r Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. 1986 blaenorol (fel y'u diwygiwyd). Yn rhan o'r adolygiad cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol â'r cyhoedd ac fe gafodd rhanddeiliaid eu cynnwys yn barhaus.

# Rhan 1: Y Gyfraith sy'n ymwneud â lloggi

## Y Rheoliadau Lloggi

Mae'r Rheoliadau Lloggi'n rheoli'r weithred o losgi grug, gwair bras, rhedyn, eithin a *Vaccinium* (llus)<sup>1</sup>. Nid ydynt yn berthnasol i erddi preifat na gerddi rhandir.

Mae'r rheolau canlynol yn berthnasol drwy gydol y flwyddyn:

- Ni ddylid dechrau lloggi grug, glaswellt ac ati **rhwng machlud a chodiad haul**.
- Rhaid cael **digon o bobl a chyfarpar** wrth law drwy'r amser i reoli'r lloggi.
- Dylid cymryd pob rhagofal rhesymol i atal anafiadau neu ddifrod i unigolion, anifeiliaid neu eiddo cyfagos.
- Rhaid rhoi o leiaf 24 awr ond dim mwy na saith diwrnod o **rybudd** o'r bwriad i losgi mewn ysgrifen i berchnogion neu breswylwyr y tir dan sylw, a'r unigolion sy'n gyfrifol am dir cyfagos. Dylai'r rhybudd gynnwys dyddiadau, amser, lleoliad a maint y tir sy'n cael ei losgi.
- Rhaid sicrhau **Cynllun Rheoli Lloggi (CRhLI)**<sup>2</sup> dilys sydd ar gael i'w archwilio gan swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gais ar gyfer pob llogfa y bwriedir ei chynnal y tu allan i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
- Rhaid cyflwyno CRhLI hefyd ar gyfer llogfa y bwriedir ei chynnal ar SoDdGA neu safleoedd eraill dynodedig. Fodd bynnag, os oes cynllun wedi'i greu drwy gytundeb â Chyngor Cefn Gwlad Cymru neu gyrff dynodi eraill, gellir defnyddio'r cynllun hwnnw i gydymffurfio â'r Cod.
- Mae'n bosibl y bydd angen cael caniatâd ffurfiol gan Cadw i losgi ar Heneb Gofrestredig.

<sup>1</sup> *Vaccinium spp.* Rhywogaethau a elwir ar lafar yn llus, llugaeron a llus cochion.

<sup>2</sup> Ffurflen safonol ar gael gan swyddfa leol Adran Materion Gwledig (AMG) Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r Cynllun Rheoli Lloggi. Ar y ffurflen dylech nodi gwybodaeth ynglŷn â'ch bwriad i losgi.

Does dim angen i awdurdodau rheilffordd fodloni'r gofynion rhoi rhybudd yn y pwynt olaf uchod wrth losgi planhigion toredig ar dir rheilffordd. O ran planhigion heb eu torri, yn lle'r gofyniad i roi gwybod i unigolion sy'n gyfrifol am dir cyfagos, rhaid i'r awdurdodau roi rhybudd o unrhyw losgfa fwriedig o leiaf saith diwrnod, a dim mwy na 28 diwrnod cyn dechrau llosgi drwy gyhoeddi'r manylion yn un neu fwy o'r papurau newydd lleol, a thrwy ddulliau eraill addas.

## Dyddiadau llosgi

Mae a wnelo'r rheolau sy'n weddill â llosgi ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Ni chaniateir llosgi ond ar y dyddiadau canlynol:

- **1 Hydref -31 Mawrth** ar yr ucheldir (a ddiffinnir fel tir yn Ardal dan Anfantais Fawr yn yr Ardal Llai Ffafirol<sup>3</sup>)
- **1 Tachwedd - 15 Mawrth** ym mhob man arall.
- **Ar adegau eraill** gyda thrwydded na ellir ond ei chael dan amgylchiadau penodol iawn.

## Trwyddedau

Rhaid cyflwyno pob cais am drwydded i losgi yn y cyfnod cyfyngedig mewn ysgriflen i'ch swyddfa Adran Materion Gwledig (AMG) leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)<sup>4</sup>.

- O leiaf 28 diwrnod cyn yr ydych yn bwriadu dechrau'r llosgi
- Ddim mwy na 56 diwrnod cyn y bwriedir i'r llosgi ddod i ben.

Rhaid i geisiadau gynnwys dyddiad(au), lleoliad, dull ac arwynebedd y llosgfa arfaethedig, a digon o wybodaeth i ddangos bod y llosgi'n angenrheidiol a buddiol at ddibenion cynnal a chadw tir yn dda (neu i reoli pla ar dir rheilffordd). Heb fod yn hwyrach na dyddiad cyflwyno'r cais, rhaid cyflwyno

<sup>3</sup> Ceir map rhyngweithiol sy'n dangos yr Ardal dan Anfantais Fawr ar wefan AMG Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://www.cymru.gov.uk/cefngwlad> (ewch i 'ffermio' i weld copi o'r map Ardal Llai Ffafirol ar gyfer Cymru).

<sup>4</sup> Mae ffurflenni cais ar gael o'ch swyddfeydd Adran Materion Gwledig lleol (AMG) a gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: [www.cymru.gov.uk/cefngwlad](http://www.cymru.gov.uk/cefngwlad) (ewch i 'ffermio' neu chwiliwch am Llosgi Grug a glaswellt ar y wefan).

rhybudd ysgrifenedig ohono sy'n cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol i berchnogion neu breswylwyr y tir dan sylw ac i'r unigolion sy'n gyfrifol am dir cyfagos<sup>5</sup>.

Rhaid hysbysu'r rhai sy'n cael rhybudd y cânt gyflwyno sylwadau i'r swyddfa AMG sy'n delio â'r cais cyn pen saith diwrnod wedi iddynt gael y rhybudd. Ar dir comin, rhaid arddangos y rhybudd yn glir ar y tir.

Unwaith eto, ceir darpariaethau arbennig ar gyfer awdurdodau rheilffordd sy'n llosgi tir rheilffordd.

## Dirwyon

Bydd unrhyw un sy'n mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau Llosgi yn cyflawni trosedd o dan adran 20(2) o Ddeddf Ffermio'r Bryniau 1946. Gallai troseddwyr o'r fath fod yn agored i i **ddirwy o hyd at £1,000**.

Gall troseddwyr sy'n derbyn y Taliad Sengl hefyd gael eu cosbi o dan reolau trawsgydymffurfio sy'n ymwneud â Chyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (CAAD).

## Y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad

Ceir rheolau arbennig ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn unol â'r Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981) (fel y'i diwygiwyd). Ar dir SoDdGA, **peidiwch**:

- â chynnal, achosi neu ganiatáu i unrhyw Weithrediad sy'n Debygol o Niweidio (GDN) (y cyfeiriwyd ato gynt fel 'gweithrediad a allai fod yn niweidiol') gael ei gynnal os ydyw wedi'i nodi ar y rhybudd sy'n dynodi bod y tir yn SoDdGA, oni bai eich bod wedi cael caniatâd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC); neu fod y weithred wedi'i chyfiawnhau drwy delerau cytundeb, rhybudd neu gynllun rheoli; neu os oes gennych esgus rhesymol sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf;
- o wybod bod y tir yn SoDdGA, â dinistrio neu niweidio, yn fwriadol neu'n ddi-hid, unrhyw un o'r planhigion, anifeiliaid na nodweddion eraill daearegol neu dirweddol a arweiniodd at ddynodi'r tir yn SoDdGA,

<sup>5</sup> Gellir naill ai rhoi rhybudd wyneb yn wyneb, ei anfon drwy'r post neu drwy law i fan preswyllo neu fusnes diwethaf neu arferol y derbynnydd. Gellir anfon neu bostio rhybuddion i gwmnïau at ysgrifennydd neu brif swyddog ym mhencadlys neu swyddfa gofrestredig y cwmni. Fel arall, gellir anfon rhybuddion at asiantau neu gynrychiolwyr lleol sy'n gyfrifol am reoli neu oruchwylio'r tir y mae'r rhybudd yn berthnasol iddo.

nac aflonyddu'n fwriadol neu'n ddi-hid ar unrhyw un o'r anifeiliaid hynny heb esgus rhesymol. (Gall y gofyniad hwn fod yn berthnasol i weithredoedd sy'n digwydd ar fan arall yn hytrach na'r SoDdGA ei hun, ond sy'n arwain at y canlyniadau uchod).

Fel arfer, mae llosgi wedi'i restru fel Gweithrediad sy'n Debygol o Niweidio ac fe allai ddinistrio neu niweidio'r nodweddion arbennig hynny a arweiniodd at ddynodi'r safle.

O dan y **Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981)** mae lladd, niweidio neu ddinistrio'n fwriadol unrhyw rywogaethau o adar a warchodir, eu hwyau neu eu nythod (os ydynt yn cael eu defnyddio neu'u hadeiladu) hefyd yn anghyfreithlon. At hynny, mewn perthynas â rhywogaethau arbennig sy'n cael eu diogelu ac sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 1 y Ddeddf, mae tarfu ar adar yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth iddynt adeiladu nyth, neu ar nyth neu wrth ymyl nyth ac ynddi wyau neu gywion hefyd yn drosedd. Ceir gofyniad cyffredinol tebyg (gwarchod nythod yn ogystal ag adar, wyau a chynefinoedd) yn y Gyfarwyddeb Adar. Gallai llosgi llecyn lle gwyddys bod adar yn nythu fod yn gyfystyr â tharfu bwriadol neu ddi-hid.

Gallai peidio cydymffurfio â'r darpariaethau hyn arwain at **ddirwy o hyd at £2,500 a chosbau o dan Gynllun y Taliad Sengl (CTS)**.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn gwybod am leoliad a maint unrhyw SoDdGA ar eich tir/daliad fferm. Dylech fod wedi cael gwybod am unrhyw safleoedd o'r fath pan gawsant eu rhestru neu wrth i chi feddiannu'r tir. Os ydych yn ansicr ynglŷn â hyn, dylech gysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Ceir manylion yn Atodiad 2.

## Henebion Cofrestredig

Ceir rheolau arbennig ar gyfer Henebion Cofrestredig yn unol â thelerau Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979. Oni bai eich bod wedi cael caniatâd ffurfiol gan CADW drwy'r drefn Caniatâd Heneb Gofrestredig, ni ddylech gyflawni unrhyw weithred a allai arwain at ddymchwel, dinistrio neu ddifrodi Heneb Gofrestredig.

Mewn rhai amgylchiadau gall llosgi ddifrodi Henebion Cofrestredig, yn enwedig y nodweddion hynny sydd ar wyneb y tir. Gall hefyd ddifrodi rhai nodweddion eraill hanesyddol, gan gynnwys pridd mawn, yn dibynnu



ar gryfder y tanau. Mae'n bosibl y bydd angen cael caniatâd gan CADW cyn llosgi. Gallai peidio cydymffurfio â'r darpariaethau hyn arwain at **ddirwy o hyd at £5000 a chosbau o dan Gynllun y Taliad Sengl**.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn gwybod lleoliad a maint yr holl Henebion Cofrestredig ar eich tir. Dylech fod wedi cael gwybod am unrhyw henebion o'r fath pan gawsant eu rhestru, neu wrth i chi feddiannu'r tir. Os ydych yn ansicr ynglŷn â hyn, dylech gysylltu â CADW neu wirio'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a gedwir gan eich ymddiriedolaeth archeolegol leol. Ceir manylion yn Atodiad [2].

## Gofynion cyfreithiol eraill

Mae gofynion sy'n ymwneud yn benodol â llosgi hefyd i'w cael mewn deddfau eraill.

Mae'r canlynol oll yn droseddau a allai arwain at erlyniad:

- Mae llosgi ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) heb ganiatâd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn anghyfreithlon os nodwyd bod llosgi'n "weithrediad sy'n debygol o niweidio" [*Adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*].
- Mae llosgi mewn modd sy'n difrodi Heneb gofrestredig yn anghyfreithlon. [*Adran 2 o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979*].
- Mae llosgi mewn modd sy'n debygol o anafu, peryglu neu amharu ar ddefnyddwyr ffordd yn anghyfreithlon. [*Adran 161A o Ddeddf Priffyrdd 1980*].
- Rhaid i'r holl gyfarpar fod yn addas i'r diben. [*Rheoliad 4 yn Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998*].
- Mae peryglu unrhyw un, gan gynnwys y cyhoedd, drwy weithrediadau llosgi yn anghyfreithlon. [*Adrannau 2 a 3 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974; a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999*].
- Mae achosi allyriad mwg sy'n niweidio iechyd neu'n peri niwsans yn anghyfreithlon. [*Adran 79 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*].

- Mae llygru “dyfroedd rheoledig” (e.e. drwy erydiad y pridd yn sgil y lloggi) yn anghyfreithlon. [Adran 85 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991].

## Trawsgydymffurfio

Mae lloggi hefyd yn amodol ar gyfyngiadau **trawsgydymffurfio** o dan Gynllun y Taliad Sengl (CTS) <sup>6</sup>.

Mae dilyn Rheoliadau Lloggi yn un o ofynion Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (CAAD), ac mae'r Gofyniad Rheoli Statudol (GRhS) 'Cadwraeth ffawna a fflora' yn mynnu eich bod yn cadw at amodau unrhyw ganiatâd gan CCGC ynghylch lloggi ar SoDdGA.

Mae CAAD yn cynnwys gofyniad am ganiatâd heneb gofrestredig gan CADW cyn gwneud unrhyw waith ar henebion cofrestredig. Mewn rhai amgylchiadau gall hyn gynnwys lloggi felly dylid gofyn i Cadw am gyngor ymlaen llaw.

## Gallai peidio cydymffurfio â'r darpariaethau hyn arwain at ostwng eich Taliad Sengl.

Ni cheir yr un cyfnodau cyfyngedig statudol â'r hyn a geir wrth losgi os ydych yn **torri** neu lusgo planhigion yn lle gwneud hynny. Fodd bynnag, byddech yn torri GRhS 'Cadwraeth adar gwyllt' ac yn cyflawni trosedd o dan Ran 1 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) pe bai torri neu lusgo'n fwriadol yn arwain at: farwolaeth neu niweidio adar gwyllt neu eu nythod; tarfu'n fwriadol neu'n ddi-hid ar adar Atodlen 1 wrth iddynt adeiladu nyth, neu ar nyth neu wrth ymyl nyth ac ynddi wyau neu gywion.

Gan hyn ni ddylid gwneud gwaith torri na llusgo yn ystod y tymor nythu neu pan wyddys bod adar sy'n nythu ar y ddaear yn bresennol. Gall defnyddio peiriannau torri ar SoDdGA hefyd fod yn drosedd os dynodwyd bod defnyddio peiriannau'n Weithrediad sy'n Debygol o Niweidio ac na chafwyd caniatâd i'w defnyddio. Bydd ymrwymadau cyfreithiol eraill ar ddefnyddio peiriannau'n ddiogel hefyd yn berthnasol. Gall difrodi cynefinoedd heb eu gwella drwy adael ôl cerbydau arnynt hefyd fod yn groes i ofynion CAAD.

<sup>6</sup> Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: [www.cymru.gov.uk/cefnogwlad](http://www.cymru.gov.uk/cefnogwlad) (ewch i "ffermio" i weld yr wybodaeth am Drawsgydymffurfio).

## Rhan 2: Argymhellion ar gyfer llosgi llystyfiant lled-naturiol

Mae'r Rheoliadau Llosgi'n ymwneud â llosgi grug, gwair bras, rhedyn, eithin a rhywogaethau *Vaccinium*. Caiff rhywogaethau a mathau eraill o llystyfiant lled-naturiol hefyd eu llosgi, gan gynnwys corlwyni eraill (e.e. grug y mêl), rhywogaethau eraill o brysgwydd, yn enwedig eithin, a gwlyptiroedd gan gynnwys corsydd, migneint, ffennau a gwelyau cyrs ac ati. Mae dilyn y Cod hefyd yn arfer da wrth losgi rhywogaethau neu gynefinoedd eraill.

### 1 Dynodwch sefyllfaoedd lle na ddylid llosgi (ardaloedd 'dim llosgi')

Mae rhai cynefinoedd ac ardaloedd, oherwydd natur y tir, cyfansoddiad rhywogaethau neu amodau tyfu anodd, yn agored i gael eu difrodi gan ddulliau rheoli dwys, gan gynnwys llosgi. Gall difrod o'r fath arwain at ddatguddio mawn noeth, erydu'r pridd, effeithio ar ansawdd a llif dŵr, gan gynnwys mwy o liw yn y dŵr a dŵr ffo, a newidiadau yng nghyfansoddiad rhywogaethau a strwythur cynefinoedd.

Am y rhesymau hyn, **dylid rhagdybio bod y cynefinoedd a'r ardaloedd sensitif canlynol wedi'u cynnwys mewn ardaloedd dim llosgi** oni bai fod y weithred o'u llosgi'n rhan o raglen adfer neu raglen arall gytunedig i reoli'r amgylchedd. Ceir diffiniadau llawnach o'r cynefinoedd a'r ardaloedd hyn yn Atodiad 1.

#### Cynefinoedd sensitif

- **Mawnog a gweundir gwlyb** gan gynnwys cyforgorsydd, gorgorsydd, corsydd dyffrynog a migneint ar ucheldir a thir isel.
- **Cynefinoedd mynydd** ar safleoedd uchel uwch ben terfyn naturiol y coetir (y goedlin) (tua 600m [neu 2000 troedfedd]) lle mae tyfiant yn araf a'r llystyfiant yn aml yn glytiog.
- **Gweundir morol** ac arno llystyfiant gweundir a phlanhigion eraill byr ataliedig sy'n deillio o wynt-docio a halen sy'n tasgu o'r môr (fel arfer

o fewn 500 m i'r arfordir a heb gynnwys gweundiroedd eraill arfordirol nad yw'r môr wedi dylanwadu arnynt yn sylweddol).

- **Coetir a phrysgwydd** (ac eithrio eithin a banadl) ac eithrio lle bo staff hyfforddedig a phrofiadol yn gwneud gwaith llosgi fel rhan o raglen rheoli coetir a phrysgwydd er mwyn annog coetir a phrysgwydd cynhenid i ehangu, neu er budd bywyd gwylt y goedwig. Hefyd ardaloedd a chanddynt goed a phrysgwydd llydanddail naturiol yn adfywio neu yn union wrth ymyl coetir neu brysgwydd llydanddail.

## Ardaloedd eraill sensitif

- Clystyrau o **hen rug trwchus** (aeddfeid a dirywiedig).
- **Llethrau serth** o 1 i 2 neu fwy lle bo risg o erydiad, neu 1 i 3 ar orfigneint a gweundir gwlyb.
- **Sgri a llethrau eraill creigiog.**
- **Llystyfiant wedi'i wynt-docio'n helaeth**, y rhan fwyaf ohono'n ffurfio mat ymledol a gwasgarog o bryd i'w gilydd, a'i drwch yn llai na 10cm.
- Ardaloedd a chanddynt **bridd sy'n erydu neu bridd bas iawn** (dyfnder o lai na 5 cm).
- Tir a chanddo garped helaeth ac/neu bron yn barhaus o **figwyn** (rhywogaethau *Sphagnum*), **llyisiau'r afu ac/neu gennau.**
- **Tir gwlyb** gan gynnwys pyllau, gwactodau gwlyb, ffynhonnau neu ruthr dŵr.
- Torlannau mawn ac ardaloedd eraill â **mawn noeth a rhigolau erydu.**
- O fewn 10 metr i **gyrsiau dŵr.**
- Ardaloedd â llystyfiant, yn arbennig gweundir, sy'n cael ei **gadw'n fyr iawn gan dda byw, ceirw neu gwningod sy'n pori arno.**
- Ardaloedd lle gwyddys bod **rhywogaethau sy'n sensitif i dân** ac sydd o ddiddordeb cadwraethol i'w cael, neu lle gwyddys am fodolaeth rhywogaethau eraill sy'n agored i niwed, e.e. safleoedd nythu adar ysglyfaethus. Mae'r rhain yn cynnwys ymlusgiaid, yn arbennig madfall

y twyni a'r neidr lefn sy'n brin ar raddfa genedlaethol; rhai mathau o fryoffytau, rhedyn, meryw, cen, ac infertebrata.

- **Safleoedd a nodweddion archeolegol/hanesyddol.** Bu llosgi'n rhan o'r traddodiad rheoli tir, yn arbennig yn yr ucheldiroedd, ac mae llawer o nodweddion hanesyddol wedi goroesi ac yn wir wedi elwa o'r arfer. Serch hynny, gall llosgi ddifrodi nodweddion cerrig a gwaith maen sy'n sefyll yn sylweddol. Gall adael pridd yn agored i erydiad sydd yn ei dro'n dadorchuddio gweddillion archeolegol o dan yr wyneb i gael eu difrodi. Ceir llawer o nodweddion hanesyddol o bwysigrwydd lleol a rhanbarthol nad ydynt wedi'u rhestru ond sy'n dal yn gyfansoddion pwysig yn y dirwedd hanesyddol. Cewch wybodaeth am y safleoedd hyn o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a gedwir gan yr Ymddiriedolaeth Archeolegol leol. Dylid gofyn am eu cyngor cyn llosgi.

**Yn ogystal â'r cynefinoedd a'r ardaloedd sensitif uchod, dylid cymryd pob gofal wrth losgi'n gyfagos â, neu wrth ymyl y canlynol:**

- Ar neu wrth ymyl **clystyrau o redyn**. Ni fydd llosgi fel arfer o unrhyw fudd a gall achosi i'r rhedyn ledaenu oni bai y cymerir camau dilynol i atal hynny;
- Ar neu wrth ymyl **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** (SoDdGA). Fel arfer rhestrir llosgi fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio (GDN). **Yn ôl y gyfraith** rhaid i chi ymgynghori â swyddfa leol Cyngor Cefn Gwlad Cymru cyn cyflawni gweithred, neu achosi neu ganiatáu i weithred gael ei chyflawni sy'n debygol o beri niwed, ac sydd wedi'i nodi ar y rhybudd sy'n dynodi'r tir yn SoDdGA, oni bai eich bod wedi cael caniatâd;
- Ar neu wrth ymyl **Henebion Cofrestredig**. **Yn ôl y gyfraith** rhaid cael caniatâd ffurfiol gan CADW cyn cyflawni unrhyw weithred sy'n debygol o arwain at ddymchwel neu ddinistrio, neu unrhyw ddifrod i Heneb Gofrestredig;
- Ar **dir isel a gweundir arfordirol** lle dylid cymryd pob gofal i sicrhau nad yw rhywogaethau sy'n sensitif i dân na'u cynefinoedd yn cael eu niweidio, yn enwedig madfall y twyni a'r neidr lefn sy'n brin ar raddfa genedlaethol.
- Ar safleoedd lle na cheir mynediad rhwydd i gerbydau'r gwasanaethau brys, yn enwedig pan fo hanes o golli rheolaeth ar losgfeydd.

## 2 Y Cynllun Rheoli Llosgi (CRhLI)

Dylid gwneud gwaith llosgi o dan **raglen tymor hir** gynlluniedig neu **gynllun llosgi**. Gellir cael copi o'r Cynllun Rheoli Llosgi ar ffurf ffurflen safonol o'ch swyddfa Adran Materion Gwledig (AMG) leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd y Cynllun Llosgi'n cynnwys:

- pennu **ardaloedd dim llosgi** (gweler yr adran flaenorol);
- pennu **ardaloedd â blaenoriaeth** i'w llosgi, lle bydd llosgi o fudd (yn dibynnu ar y mathau o llystyfiant sy'n bresennol a'u cyflwr);
- **amlder** y llosgi (y cylchdro neu'r cyfnodau dychwelyd);
- y **swm** a losgir bob blwyddyn neu dros oes y cynllun;
- **maint a siâp** llosgfeydd unigol;
- **dyddiadau ac amserau'r** llosgi; ymhle ac ar ba bryd y bydd y tanau unigol yn cael eu cynnau;
- yr **amgylchiadau** lle gall llosgi ddigwydd; rhwystrau tân a chyfarpar a threfnau eraill ar gyfer rheoli ac atal tân, ac er diogelwch.

Rhoddir ystyriaeth bellach i'r materion hyn isod ac yn yr argymhellion dilynol.

### Arferion a threfnau llosgi

Bydd y drefn, yr arferion llosgi a'r materion i'w hystyried mewn cynlluniau llosgi a restrir uchod yn amrywio yn unol â'r mathau o llystyfiant sy'n bresennol a chyflwr y llystyfiant hwnnw. Fodd bynnag, argymhellir y canllaw cyffredinol canlynol.

- Peidiwch â llosgi mewn **ardaloedd dim llosgi** (gweler yr argymhelliad blaenorol).
- Penderfynwch ar **hyd y cylchdro** yn seiliedig ar ystod o ffactorau gan gynnwys amcanion rheoli, y mathau o llystyfiant a'u cyflwr; graddfa dwf y llystyfiant a losgir (bydd ffactorau fel cyflwr y pridd, dinoethiad, y pwysau pori ar y tir ac ati yn effeithio ar hyn).

- Llosgwch **weundir sych** â grug ac/neu gorlwyni eraill (y tu allan i ardaloedd dim llosgi) pan fyddant rhwng 20 cm (8 modfedd) a 30 cm (12 modfedd) o uchder.
- Caniatewch i rai rhannau o'r **grug ac/neu llwyni eraill** dyfu i tua 40 cm (16 modfedd) neu fwy i gynyddu amrywiaeth eu strwythur.
- Penderfynwch ar y **cyfanswm i'w losgi bob blwyddyn** yn ôl cyfradd twf y grug/llwyni, h.y. os ceir 20cm dros ddeng mlynedd yn yr ardaloedd ffafriol, dylid losgi 1/10 o gyfanswm y gweundir yn y cylchdro losgi bob blwyddyn ar gyfartaledd; os yw hynny'n digwydd dros 20 mlynedd, dylid losgi 1/20 bob blwyddyn ac ati. Mae hyn ar yr amod nad yw pob clwt yn fwy na 2 hectar a bod o leiaf 50 metr rhwng pob clwt.
- Ni ddylech ond losgi **glaswelltir a rhostir glaswelltog** os ceir llystyfiant marw (hen ddeiliach)<sup>7</sup> amlwg ac eang oherwydd tanddefnydd ohono gan y stoc pori dros y tymhorau blaenorol. Yn ddelfrydol dylech gynyddu dwysedd y pori dros yr haf os nad adfer gweundir neu gors yw'r amcan. Os yw llystyfiant trwchus heb ei fwyta'n peri problem barhaus ceisiwch losgi darn llai ohono. Bydd hyn yn ymestyn y cylchdro, na ddylai fod yn amlach na phob 5 mlynedd, ac yn hyrwyddo defnydd gwell o'r twf newydd<sup>8</sup>.
- Ystyriwch yr **effaith bosibl ar ffawna, yn arbennig ymlusgiaid ac adar sy'n nythu**, wrth losgi (neu dorri), yn arbennig ym mis Mawrth. **Yn ôl y gyfraith** cewch losgi (ac eithrio dan drwydded) rhwng **1 Hydref a 31 Mawrth** ar ucheldir (wedi'i ddiffinio fel tir mewn Ardal dan Anfantais Fawr yn yr Ardal Llai Ffafriol) a rhwng **1 Tachwedd a 15 Mawrth** ym mhob man arall. Ystyriwch beidio losgi yn gynharach yn y gwanwyn mewn ardaloedd y gwyddys eu bod yn bwysig i ymlusgiaid, a phan wyddys bod adar sy'n nythu yn bresennol. **Yn ôl y gyfraith** mae lladd, niweidio neu ddinistrio'n fwriadol unrhyw rywogaethau o adar a warchodir a'u nyth tra mae'n cael ei hadeiladu neu ei defnyddio, a'r wyau yn anghyfreithlon. At hynny, mewn perthynas â rhywogaethau arbennig a warchodir ac a restrir yn

<sup>7</sup> Gweler Canllaw Technegol y Cynllun Rheoli Llosgi am gyngor ynghylch cynefinoedd glaswellt y bwla.

<sup>8</sup> Gweler Canllaw Technegol y Cynllun Rheoli Llosgi am gyngor ynghylch cynefinoedd eraill.

Atodlen 1 y Ddeddf, mae tarfu ar adar yn fwriadol *neu'n ddi-hid* wrth iddynt adeiladu nyth, neu ar nyth neu wrth ymyl nyth ac ynddi wyau neu gywion hefyd yn drosedd.

- Sicrhewch fod digon o **rwystrau tân**. Dylai'r rwystrau fod o leiaf ddwy waith a hanner yn fwy o ran lled na hyd y fflamau a ddisgwylir.
- Ystyriwch **dorri neu lusgo** yn lle llosgi, ond dim os na fydd y tir yn rhy greigiog, gwlyb neu anhygyrch i'w ddefnyddio'n ddiogel, ac os na fydd y peiriannau'n difrodi'r llystyfiant a'r pridd. Bydd tywydd yn amharu llai ar dorri na llosgi, a does dim risg i eiddo cymdogion. Wrth dorri, dylid dilyn y canllaw cyffredinol ar losgi.
- Os ydych yn llusgo i greu rwystrau tân, neu yn lle llosgi, **ceisiwch beidio creu siapiau neu ymylon rheolaidd**. Ni fydd y rhain yn llwyddo i fwyafu'r ymyl rhwng grug/llwyni byr a thal, sy'n un o'r prif resymau dros losgi, a gallant hagra ac amharu ar gymeriad y dirwedd.
- Cyfyngwch yr ardal yn eich cynllun llosgi i gyfateb i'ch **adnoddau** o ran amser, llafur, cyfarpar ac arian.

### 3 Paratowch yn drylwyr cyn gwneud unrhyw waith llosgi

Cynlluniwch ac ymgynghorwch yn ddigon buan cyn dechrau'r tymor llosgi gan gynnwys:

- Ystyriwch ymuno â grŵp diogelu rhag tân, neu grŵp tebyg, neu sefydlu **grŵp o'r fath eich hun**. Mae'r rhain i'w cael mewn rhai ardaloedd, ac yn darparu trefniant ffurfiol i dirfeddianwyr a rheolwyr gydlyn eu hadnoddau a rhoi cymorth y naill i'r llall os bydd tanau yn mynd y tu hwnt i reolaeth.<sup>9</sup>
- Chwiliwch am fwy o **wybodaeth neu hyfforddiant** (gweler Atodiad 3) yn arbennig os na allwch ragfynegi hyd y fflamau, dwysedd y tân, pa mor gyflym y bydd yn lledaenu, ac agweddau eraill ar ymddygiad tân, neu'n ansicr ynglŷn â thechnegau rheoli tân.

<sup>9</sup> Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol am fanylion.



- **Ymgynghorwch a chydweithredwch** â phawb sydd â buddiannau yn y tir, gan gynnwys cymdogion, yn enwedig perchnogion coetiroedd, i sefydlu neu gadarnhau rhaglen losgi ar gyfer y flwyddyn. Ar **dir comin**, ymgynghorwch â chominwyr a'r Gymdeithas Cominwyr leol, os oes un. Dyma gyfle i leihau costau a risgiau drwy rannu llafur ac offer, yn ogystal â rhoi digon o rybudd o'ch bwriadau.
- Ar **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**, dylid rhoi gwybod i Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Os rhestrwyd llosgi fel 'Gweithred sy'n Debygol o Niweidio', bydd angen i chi gael caniatâd **yn ôl y gyfraith**.
- Os oes **Heneb Gofrestredig**, dylech ofyn i CADW am gyngor. Yn ôl y gyfraith, gellid bod angen caniatâd heneb gofrestredig ar gyfer Henebion Cofrestredig.
- Dynodwch unrhyw nodweddion nad ydynt wedi'u rhestru drwy wirio'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a gedwir gan yr Ymddiriedolaeth Archeolegol leol. Gofynnwch iddynt am gyngor ynglŷn ag unrhyw fesurau diogelu a allai fod yn briodol.
- Cyn gwneud y gwaith llosgi, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'ch **gwasanaeth tân ac achub lleol** ynglŷn â'ch cynlluniau.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych **gynllun argyfwng**, y bydd gennych gymorth wrth gefn a bod modd i chi gysylltu â hwy ar radio neu ffôn symudol ar ddiwrnod y llosgi.
- Sicrhewch fod **pob darn o gyfarpar yn addas i'r diben**. Yn ôl y gyfraith mae hyn yn ofyniad yn Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (O.S. 2306, Rheoliadau. 4 a 5). Sicrhewch y defnyddir yr offer cynnau tân a rheoli tân mwyaf diogel ac effeithiol sydd ar gael.
- Gwnewch yn siŵr bod amrywiaeth ddigonol o **gyfarpar rheoli tân** (e.e. mathau amrywiol o gurwyr, chwistrellwyr niwl pwysedd uchel ac ati.), a digon o rai wrth gefn i ymdopi ag amgylchiadau newidiol a chyfarpar sy'n torri neu'n ddiffygiol.
- Dylai'r rhai sy'n gwneud y gwaith llosgi fod wedi cael **hyfforddiant** ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar.
- Dylai pob aelod o staff fod wedi cael ei hyfforddi ar weithdrefnau diogel a defnyddio **cyfarpar diogelwch personol** (e.e. masgiau wyneb ar BS2092/BSEN166, menig lledr ac oferôls gwrthdan). Fodd bynnag **dylent**

gadw rhan o'r corff sy'n sensitif i wres heb ei gorchuddio bob amser er mwyn iddynt allu synhwyro perygl.

- Dylai timau sy'n gwneud gwaith llosgi fod â **phēcyn cymorth cyntaf** a dylai o leiaf un o'r tîm fod wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.
- Sicrhewch fod dulliau ychwanegol o atal tân ar gael wrth losgi llystyfiant sy'n cynnwys llawer o **laswellt y bwla** ('glaswellt y gweunydd' neu 'grawcwellt'). Gall darnau mân o wellt a dail marw sy'n llosgi gael eu codi yn y dynfa at i fyny o'r tân a dechrau tanau newydd.

## 4 Gwneud gwaith llosgi mewn modd diogel a phroffesiynol

Rhaid cynnal pob llosgfa mewn modd diogel a phroffesiynol. **Yn ôl y gyfraith, rhaid sicrhau bod digon o bobl ac offer** wrth law drwy'r amser i reoli'r llosgi, a rhaid cymryd pob **rhagofal** rhesymol i atal pobl, anifeiliaid ac eiddo cyfagos rhag cael eu hanafu neu eu difrodi. Dilynwch y rhestr wirio yn Atodiad 2 ac:

- Ar fore'r diwrnod llosgi, neu'r noson gynt, ffoiwch **y tîrfeddianwyr cyfagos i roi gwybod iddynt am eich cynlluniau i losgi** ar y diwrnod hwnnw.
- Ar fore'r diwrnod llosgi, ffoiwch eich **gwasanaeth tân ac achub lleol** a rhowch fanylion y lleoliad (gan gynnwys y cyfeirnod grid ar y map Arolwg Ordnans) a maint y tir y bwriedir ei losgi. Ar ddiwedd y dydd, rhowch wybod iddynt ar ôl i'r holl danau gael eu diffodd.
- Peidiwch â llosgi os nad yw'r tywydd yn addas i wneud gwaith llosgi mewn modd diogel a rheoledig. Gwiriwch ragolygon y tywydd mor agos ag sy'n bosibl at adeg y llosgi.
- Peidiwch â llosgi pan fydd y tywydd yn rhy sych, hynny yw, pan fydd y mwsogl a'r planhigion marw ar wyneb y tir yn sych grimp.
- Peidiwch â llosgi os bydd y gwynt yn rhy gryf, hynny yw, pan fydd cyflymder y gwynt yn uwch nag oddeutu 15 milltir yr awr neu 6.7 m (22 troedfedd) yr eiliad ar lefel y llygaid (rhagolygon o gyflymder gwynt Grym 4 neu fwy). Pan fo'r gwynt yn rhy gryf, bydd coesynnau

talach y grug yn pendilio'n barhaus i bob cyfeiriad, a bydd hyd yn oed y coesynnau byrrach mwy cysgodol yn symud yn barhaus. Yn ddelfrydol, dewiswch ddiwrnod ag awel dyner a chyson o 8 i 12 milltir yr awr. Byddai awel o'r fath yn symud dail a mân frigau yn gyson, ond ni fyddai'n chwythu llwch neu bapur o amgylch y lle neu'n symud mân ganghennau'r coed. Mae gwyntoedd ysgafn amrywiol, gwyntoedd cryfion a hyrddiog a dyddiau llonydd yn beryglus. **Cofiwch bob amser fod tân yn creu ei ddrafft ei hun a gall hwnnw effeithio ar ei gyfeiriad, waeth beth fo cyfeiriad y gwynt.** Os bydd amgylchiadau'n gwaethygu dylid diffodd y tân ar unwaith.

- **Peidiwch â llosgi os yw'n debygol y bydd y fflamau'n hirach na 3 m** (oddeutu 10 troedfedd). Cyfuniad o faint y tanwydd ac amodau'r tywydd fydd yn pennu a fydd hyn yn digwydd ai peidio.
- Fel arfer, dylid llosgi **gyda'r gwynt**. Mae'n bosibl y bydd angen ôl-llosgi yn erbyn y gwynt er mwyn paratoi rhwystrau tân a chlirio'r tir i ail-hadu neu blannu coed. Bydd tân sy'n llosgi am yn ôl yn symud yn araf ac yn llosgi'n boethach, gan helpu i atal adfywiad. Yn ddelfrydol, dylai'r gwynt fod yn chwythu at i lawr. Os ceir bod hynny'n amhosibl, dylid rhoi cynnig ar dir gwastad, ac yna ar lethr graddol os na fydd hynny'n llwyddiant.
- Dylid anelu i gynnal '**llosgfeydd oer**' a sydyn sy'n cael gwared â'r canopi o gorlwyni ond sy'n gadael rhywfaint o frigau ar eu hôl, ac nad ydynt yn difrodi'r haen o fwsogl nac yn dinoethi wyneb y pridd.
- Ystyriwch **amseru'r llosgi** yn ystod y dydd, gan osgoi dechrau'n rhy fuan pan fo'r tir yn dal yn llaith, ond heb ei gadael hi'n rhy hwyr. **Yn ôl y gyfraith**, ni chewch ddechrau llosgi rhwng machlud a chodiad haul. Dylid diffodd tanau bob amser cyn yr adeg 'goleuo' lleol.
- Cadwch **y llosgfeydd** yn fach a gwasgaru'r llosgfeydd ymhell oddi wrth ei gilydd. Mae'n bosibl y bydd angen amrywio ar faint a siâp pob llosgfa yn dibynnu ar y cynefinoedd a'r amcanion.
- Ar **rosydd grugieir** peidiwch â chaniatáu i **led** llosgfeydd unigol ar weundir fod yn fwy na 55m (oddeutu 180 o droedfeddi), ac yn ddelfrydol 30m (oddeutu 100 troedfedd).
- Wrth reoli **gweundir** ar gyfer **pori** yn bennaf, ni ddylai llosgfeydd fod yn fwy na 2ha fel arfer.

- Ar **brysgdir eithin a banadl** ni ddylai llosgfeydd fod yn fwy na 0.5 ha ac ni ddylid llosgi mwy na thraean mewn un flwyddyn.
- Ar **gynefinoedd eraill**, yn enwedig glaswelltir a gweundir glaswelltog, ond hefyd ar welyau cyrs a ffeniau, mae'n bosibl y bydd angen i losgfeydd fod yn fwy, er na ddylent yn ddelfrydol fod yn fwy na 5 ha ar gyfer glaswellt/eithin/rhedyn, ac ni ddylid llosgi mwy na thraean y tir oddi mewn i'r un llain yn yr un flwyddyn.
- **Rheolwch ochrau** tân i sicrhau'r lled a ddymunir a gadael i flaen y tân ledaenu i gyfeiriad gosodedig, gan ddefnyddio rhwystr tân naturiol neu wedi'i baratoi ar un o'r ochrau o leiaf.
- **Peidiwch â llosgi am i fyny** ar lethrau serth.
- Peidiwch â llosgi oni bai eich bod yn gwybod sut ac ym mha le y **diffoddir** y tân.
- Lle ceir **mawn**, dylech osgoi ôl-danau neu wneud defnydd hynod ofalus ohonynt er mwyn lleihau'r risg o ddifrod na ellir ei ddadwneud i'r mawn o dan y tir.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych **ddigon o weithwyr** wrth law. Peidiwch byth a llosgi ar eich pen eich hun; yr hyn sydd fwyaf diogel yw llosgi gyda thri neu fwy o weithwyr. O flaen tân byw dylid neilltuo unigolyn ar gyfer pob 5-10metr, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
- Gwyliwch rhag i chi **ddioddef o ddiffyg hylif a rhag i'r gwres eich llethu (gan arwain at drawiad gwres)**. Dylai gweithwyr yfed hylif oer yn rheolaidd er mwyn osgoi bod â cheg sych neu ludiog - erbyn hynny gallwch eisoes fod yn dioddef o'r symptomau datblygedig sy'n gysylltiedig â diffyg hylif a gormodedd o wres.
- Dylech osgoi creu **mwg tywyll** neu ganiatáu i allyriadau mwg gael eu rhyddhau sy'n niweidio **iechyd** neu'n peri **niwsans** - mae'r rhain yn **anghyfreithlon**<sup>10</sup>.

<sup>10</sup> Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Deddf Aer Glân 1993

## Atodiad 1: Diffiniadau/Geirfa

**Henebion cofrestredig:** Nodweddion hanesyddol wedi'u diogelu'n statudol o dan Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979.

**Nodweddion hanesyddol:** gweddillion ffisegol sy'n adlewyrchu gweithgarwch dynol blaenorol ac sydd wedi'u nodi ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a gedwir gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru.

Ystyr “**cwrs dŵr**” yw unrhyw sianel naturiol neu artiffisial y mae dŵr yn llifo drwyddi, boed hynny drwy'r amser neu o bryd i'w gilydd, gan gynnwys afonydd, nentydd, dyfrffosydd, draeniau, rhigolau, ceuffosydd, deiciau a llifddorau, ond ac eithrio pibellau prif gyflenwad a phibellau eraill.

### Rhestr gryno o fathau o lystyfiant yn y Gymuned Genedlaethol o Lystyfiant (NVC) sy'n 'sensitif i losgi'

#### Ymwadiad

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr gan nad yw'r NVC yn cynnwys pob math o lystyfiant lled-naturiol Prydeinig. At hynny, nid yw samplau o lystyfiant bob amser yn cydweddu'n dda â chategoriâu cydnabyddedig NVC, h.y. gall y sampl fod rhwng dau fath NVC gwahanol, neu berthyn i is-gymuned nas adnabyddir.

#### Cymunedau Sensitif

Holl gymunedau coetir a phrysgwydd: NVC W1-22, 23 *pro parte*, 24-25.

Mawnogydd a gorgorsydd: NVC M1-3, 17-20.

Migneint a chyrsgiau dŵr ac ati: NVC M4-14, 21-24, 25 *pro parte*, 26-38.

Gweundiroedd gwlyb: NVC H5, M15 ac 16.

Hen rug neu rug bras: i'w cael yn nifer o'r mathau gweundir yn yr NVC, e.e. H8, 10,12 ac 18 *pro parte*.

Sgri ac allfrigiadau creigiog: cymunedau glaswelltir cysylltiedig, U18, 19 a 21. OV37

Glaswelltir a gweundir mynyddig (NVC montane MG-types, U1-17, CG10-14; H12 *pro parte*, 13-22)

Gweundir a glaswelltir morol ar yr arfordir (NVC H7, 8d, 11; MC1-12; holl SD&SM)

Ffynhonnell: Rodwell, J.S. (gol.) (1991-2000). *British Plant Communities*, Cyfrolau 1-5. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

| Dosbarth o lystyfiant | Diffiniad/disgrifiad  |
|-----------------------|---|
| Gweundir mynyddig     | <p>Llystyfiant mynyddig uwchben y goedlin naturiol (fel arfer oddeutu 600 m). Yn graddoli i weundir godreol (isod), ond fel arfer wedi'i wahanu gan rywogaethau fel mwsogl gwlanog (<i>Racomitrium lanuginosum</i>) a <i>Polytrichum alpinum sy'n cymryd lle pleurocarpus</i> neu fwsoglau pluog (megis <i>Hypnum jutlandicum</i> a <i>Pleurozium schreberi</i>). Mae hesg anystwyth (<i>Carex bigelowowii</i>), <i>Racomitrium</i> neu gennau trwchus, yn enwedig <i>Cladonia arbuscula</i> ac <i>C. impexa</i> i'w gweld yn amlwg fel arfer. Y corlwyni arferol fydd llus (<i>Vaccinium myrtillus</i>), llus coch (<i>Vaccinium vitis-idaea</i>) a chreiglus (<i>Empetrum nigrum</i>), ac ni cheir grug (<i>Calluna vulgaris</i>), grug y mêl (<i>Erica cinerea</i>) na grug croesddail (<i>Erica tetralix</i>) fel arfer. Mae'n cynnwys glaswelltir heb gorlwyni dros yr uchafswm uchder (600 m), ond nid yw'n cynnwys gorgors (ar fawn dwfn) dros 600 m. Cymunedau NVC arferol: U10 a H19 (yn ogystal â rhai eraill mwy lleol, e.e. U7, H13), wedi'i gyfyngu'n bennaf i ogledd Lloegr ( y tu allan i'r Alban), yn arbennig yn Ardal y Llynnoedd, y Cheviots a Gogledd y Penwynion, ac mewn mannau eraill yn lleol (e.e. Eryri).</p> |
| Gweundir gorllewinol  | <p>Rhostir a gweundir godreol â chorlwyni'n gorchuddio <math>\geq 25\%</math> o arwynebedd y tir (h.y. rhywogaethau grugaid, yn enwedig grug cyffredin, grug y mêl, grug croesddail a llus, ac eithin gorllewinol (<i>Ulex gallii</i>) (ond nid eithin cyffredin (<i>Ulex europaeus</i>)), ond yn wahanol i'r gweundir grug a'r gweundir gwlyb (isod) gan fod eithin gorllewinol ac/neu, yn ne orllewin a de Cymru, maeswellt gwrychog (<i>Agrostis curtisii</i>) i'w cael yn fynych fel arfer. Fel gweundiroedd eraill, mae'n helaeth fel arfer, gyda therfynau afreolaidd â glaswelltir/migneint asid fel arfer. Cymunedau NVC H4 a H8 (yn graddoli i H12 ac ati. Gweundir <i>Calluna</i> ac U3 <i>Agrostis curtisii</i> a glaswelltiroedd asid eraill). H4 ('Gweundir de-orllewinol' ) wedi'i gyfyngu i dde-orllewin Lloegr ac ymyl yr arfordir yn ne Cymru (yn dilyn dosbarthiad maeswellt gwrychog ac eithrio yn Dorset/Hampshire lle ceir H3 yn eu lle). H8 yn fwy eang, yn arbennig yn y de-orllewin, Cymru a'r Gororau ac mewn mannau eraill yn lleol e.e. Ardal y Llynnoedd) (wedi i eithin gorllewinol gael ei ddisbarthu'n fwy eang i'r gorllewin).</p>  |

|                                  |  |
|----------------------------------|--|
| <p><b>Gweundir<br/>grug</b></p>  | <p>Rhostir a gweundir godreol â chorlwyni'n gorchuddio <math>\geq 25\%</math> o arwynebedd y tir (yn enwedig grug) ond yn wahanol i'r gweundir gorllewinol (uchod) gan na welir eithin gorllewinol na maeswellt gwrychog yn aml, ac i'r gweundir gwlyb gan na cheir mwsoglau'r gors (<i>Sphagnum</i> spp.), neu ond ychydig ohonynt. Cymunedau NVC arferol: H9 (<i>Calluna–Deschampsia flexuosa</i>; yn arbennig de'r Penwynion a'r North York Moors), H10 (<i>Calluna–Erica cinerea</i>; gorllewinol), H12 (<i>Calluna–Vaccinium myrtillus</i>; eang), H18 (<i>Vaccinium myrtillus–Deschampsia flexuosa</i>; gorllewinol) a H21 (<i>Calluna–Vaccinium myrtillus–Sphagnum capillifolium</i>; Ardal y Llynnoedd).</p>   |
| <p><b>Gweundir<br/>gwlyb</b></p> | <p>Rhostir a gweundir godreol â chorlwyni'n gorchuddio <math>\geq 25\%</math> o arwynebedd y tir (yn enwedig grug, ac yn arbennig grug croesddail) mewn amgylchedd gwlyb lle nad yw'r mawn yn ddyfnach na 0.5m. Bydd bryoffytau, gan gynnwys mwsoglau'r gors fel arfer i'w cael yn helaeth, ond gallant fod yn brin neu'n absennol mewn clystyrau diraddiedig. Gall glaswellt y bwla (<i>Molinia caerulea</i>), brwyn droellgorun (<i>Juncus squarrosus</i>) a glaswellt y ceirw (<i>Trichophorum cespitosum</i>) fod yn gyffredin neu'n helaeth, ond mae'n wahanol i orgors (isod) gan na cheir plu'r gweunydd unben yn aml (<i>Eriophorum vaginatum</i>) ac oherwydd lleoliad y tir ar fawn bas. Cymunedau NVC arferol: M15 (gorllewinol), M16 (yn eang, yn arbennig yn y de, yn enwedig ar dir is) ac M25 (gorllewinol, yn arbennig Cymru a'r De Orllewin).</p> |
| <p><b>Gorgors</b></p>            | <p>Unrhyw lystyfiant ar wely o fawn neu gyforfawn ucheldirol sy'n ddyfnach na 0.5m. Bydd fel arfer wedi'i ormesu gan lystyfiant corsiog ombrogenaidd sy'n cynnwys cymysgedd o blu'r gweunydd unben, glaswellt y ceirw, glaswellt y bwla, mwsoglau'r gors a chorlwyni (cymunedau NVC M17, M18, M19, M20, M25). Gall ymddangos fel gweundir sych neu, ar ffurf ddiraddiedig, gall fod yn brin o gorlwyni a mwsoglau'r gors (e.e. cymunedau NVC H9, H12, H18 ac U6). Yn graddoli i weundir gwlyb a sych a mignen ddyffrynog. Mae'r rhan fwyaf ohonynt i'w cael yn y Penwynion (yn arbennig M19 cymharol sych a M20 diraddiedig), ac ni cheir yr M17 gwlypach ond yn Ne Orllewin Cymru a gorllewin Ardal y Llynnoedd. Mae'n cynnwys pyllau cors cysylltiedig (cymunedau NVC M1, M2, M3).</p>   |

### Mignen ddyffrynog

Llystyfiant corsiog topogenaidd (dyffrynog a basn) wedi'i nodweddu ar y cyfan gan fwsoglau helaeth ac eang, ynghyd â phlu'r gweunydd yn aml. Mae cymunedau NVC fel arfer yn cynnwys M4, M5, M6, M21 ac M25 (ac M10, M29 mewn ardaloedd mwy lleol), er eu bod ar y cyfan yn ffurfio mosäig â chymunedau eraill fel corffrydiau a ffosydd cerrig (e.e. M6) a gweundir gwlyb (y dylid eu cynnwys yn y dosbarth hwn os ydynt yn rhan o system o figneint dyffrynog).



## Atodiad 2: Rhestr o'r camau i'w cymryd cyn llosgi

Canfyddwch unrhyw ardal sydd wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a gofynnwch i CCGC am gyngor er mwyn pennu a oes angen caniatâd ai peidio.

Canfyddwch unrhyw Henebion Cofrestredig a gofyn i Cadw am gyngor. Holwch a oes angen caniatâd heneb gofrestrdig.

Canfyddwch unrhyw nodweddion hanesyddol ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a gedwir gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru, nad ydynt wedi'u rhestru.

Gofynnwch am gyngor ynglŷn ag unrhyw fesurau i sicrhau na fydd y nodweddion yn cael eu difrodi.

Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol i roi gwybod iddynt am eich bwriad i losgi, gan roi manylion y lleoliad.

## Atodiad 3: Hyfforddiant a ffynonellau gwybodaeth bellach

### Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Maes y Ffynnon  
Ffordd Penrhos  
Bangor  
Gwynedd LL57 2DW  
01248 385500  
[www.ccw.gov.uk](http://www.ccw.gov.uk)

### CADW

Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd CF15 7QQ  
01443 336000  
[www.cadw.cymru.gov.uk](http://www.cadw.cymru.gov.uk)

### Ymddiriedolaeth Archeolegol

#### Morgannwg-Gwent

Tŷ Heathfield  
Heathfield  
Abertawe SA1 6EL  
01792 655208  
[www.ggat.org.uk](http://www.ggat.org.uk)

### Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed

(Archeoleg Cambria)  
Neuadd y Sir  
Heol Caerfyrddin  
Llandeilo  
Sir Gaerfyrddin SA19 6AF  
01558 823131  
[www.acadat.com](http://www.acadat.com)

### Ymddiriedolaeth Archeolegol

#### Clwyd-Powys

7a Stryd yr Eglwys  
Y Trallwng  
Powys SY21 7DL  
01938 553670  
[www.cpat.org.uk](http://www.cpat.org.uk)

### Ymddiriedolaeth Archeolegol

#### Gwynedd

Craig Beuno  
Ffordd y Garth  
Bangor  
Gwynedd LL57 2RT  
01248 352535  
[www.heneb.co.uk](http://www.heneb.co.uk)

### Gwasanaeth Tân ac Achub

#### Gogledd Cymru

Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub  
Ffordd Salesbury  
Parc Busnes Llanellwy  
Llanellwy  
Sir Ddinbych LL17 0JJ  
01745 535250  
<http://www.gwastan-gogcymru.org.uk>

### Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Pencadlys y Gwasanaeth Tân  
Lôn y Pisgwydd  
Caerfyrddin SA31 1SP  
08706 060699  
[www.mawwfire.gov.uk](http://www.mawwfire.gov.uk)

### Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru  
Neuadd Lanelay  
Pont-y-clun CF72 9XA  
01443 232000  
[www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)

### The Heather Trust

Newtonrigg  
Holywood  
Dumfries DG2 0RA  
01387 723201  
[www.heathertrust.co.uk](http://www.heathertrust.co.uk)